





Y 1000 Diwrnod Cyntaf

Assignment code: ECEY4005C

Student ID: 2306431

Word Count: 1671



Cyflwyniad

Mae'r mil diwrnod gyntaf yn dechrau adeg cenhedlu ac yn parhau nes bydd y plentyn yn ddwy flwydd oed. Mae'r adeg yma yn hollol bwysig i ddatblygiad plentyn. Yn ystod y mil diwrnod cyntaf mae lles y fam a'r plentyn yn gysylltiedig yn agos. Yn ystod beichigrwydd bydd diet, lles corfforol a meddyliol, yr amgylchedd ac arferion ffordd o fyw'r fam yn cael effaith pwerus ar iechyd y plentyn yn y dyfodol, mae'n bwysig felly fod y fam yn derbyn maeth, gofal a chymorth sydd angen er mwyn dyfodol iachaf bosib ar hi ac ar y plentyn (Thousand days, dim dyddiad).

Mae UNICEF India (dim dyddiad) yn esbonio fod yn bwysig yn ystod y mil diwrnod gyntaf i'r plentyn i dderbyn maethiad, amddiffyniad ac ysgogiad er mwyn helpu i ddatblygu'r ymennydd. Mae Knickmeyer et al (2008) yn cryfhau hyn wrth ddweud bod ymennydd plentyn un flwydd oed yn barod yn 72% o ymennydd oedolyn ac yn tyfu at 83% erbyn oedran dau. Yn ogystal â hyn, yn y pum mlynedd gyntaf mae ymennydd plentyn yn datblygu cysylltiadau yn gyflymach na un rhywbryd arall. Mae cysylltiadau sydd yn ffurfio yn ymennydd plentyn yn digwydd dwywaith mor gyflym ac mewn ymennydd oedolyn (Stiles and Jernigan 2010). Ymhellach erbyn tair blwydd oed mae ymennydd plentyn yn gweithio dwywaith mor gyflym ag ymennydd oedolyn (Brotherson, 2000).

Yn dilyn hyn, mae UNICEF India (dim dyddiad) yn awgrymu fod plentyn sydd yn derbyn llawer o gariad yn ffynnu. Wrth deimlo yn ddiogel fydd plentyn yn archwilio'r byd o'i gwmpas. Mae bwyd a maeth yn annog datblygiad yr ymennydd. Fydd dyfodol a hapusrwydd plentyn yn cael eu siapio gan amgylchedd a phrofiadau eu blynyddoedd cynnar, felly cynghorir i wneud y mil diwrnod cyntaf yn bwysig i bob plentyn.

Yn dilyn y wybodaeth a ddarparwyd gan Knickmeyer et al (2008) ac UNICEF India (dim dyddiad) mae'r mil diwrnod cyntaf yn bwysig ym mhob agwedd o fywyd plentyn er mwyn helpu plant i gael dechreuad cadarnhaol mewn bywyd ac i annog nhw i wneud penderfyniadau iach a hyderus fel oedolion.



Gofalu

Mae yna nifer o debygrwydd rhwng Pikler (1940) a Bowlby (1969) yn ôl datblygiad plentyn, gan gynnwys ymlyniad plentyn at eu gofalwr. Mae angen i ymarferwr creu ymlyniad wrth dangos gofal eithriadol pan yn gofalu am blentyn. Cytunodd Maslow (1943) fod anghenion unigolyn yn annog y plentyn i ddatblygu.

Bydd gofal eithriadol yn cynnwys parch, bod yn ymatebol at anghenion y plentyn a fydd eisiau fod yn bresennol yn corfforol ac yn emosiynol ar bob adeg.

Wrth ymateb i bob gwên, cri a coo, mae'r plentyn yn dysgu sgiliau cyfathrebu ac empathi.


Mae gofal eithriadol yn bwysig at datblygiad plentyn oherwydd bydd yr hierarchaeth anghenion (Maslow, 1943) yn bodloni unigolyn i teimlo yn ddiogel wrth archwilio eu hamgylchedd a'u galluedd eu hunain.

Bydd angen creu amgylchedd cyfoethog o ran cyfathrebu sydd yn annog chwilfrydedd naturiol ac yn emosiynol ddiogel.

Cyfarwyddyd ddefnyddiol gan Pikler (1940) oedd i arafu lawr. Pan yn gofalu am plentyn, efallai wrth newid cewyn, bydd cyfle gwerthfawr i'r plentyn i ddysgu trwy treulio amser un i un yn di-dor a chyfnewid iaith gyfoethog gyda'u gofalwr.

Bydd iechyd ac hapusrwydd y plentyn am y dyfodol wedi siapio gan yr amgylchedd a phrofiadau yn y blynyddoedd cynnar (UNICEF India, dim dyddiad).

Gydag ymlyniad positif mae plentyn yn derbyn gofal parchus ac yn fwy hyderus i archwilio eu hamgylchedd. Mae Pikler (1940) hefyd yn esbonio fod angen i blentyn symud o gwmpas yn rhydd ac yn annibynnol. Mae plentyn yn adnabod terfynau eu hun ac yn dysgu o profiad.



Partneriaethau proffesiynol

Yn ystod y mil diwrnod cyntaf fe fydd angen llawer o gymorth ar y fam, yn ystod beichiogrwydd, ac ar y gofalwr, ar ôl genedigaeth, i wneud yn siwr fod y plentyn yn cael y dechreuad gorau phosib.

Fydd ffactorau mamol yn effeithio yn fawr ar y plentyn. os fydd y fam yn byw mewn tlodi ac yn becsu am arian neu fwyd yn ystod beichiogrwydd, gall hyn effeithio ar y plentyn. mae angen llawer o faeth ar fenyw feichiog ac wedyn yn bwydo ar y fron, ac felly fydd angen cymorth arni i ddod o hyd i fwyd. Gall ymwelwyr iechyd dod o hyd i fanc bwyd i'r teulu.

Fe fydd bydwagedd yn helpu yn ystod beichiogrwydd, meddygon ac ymwelwyr iechyd pan fydd y plentyn yn cael eu geni. Yn ogystal â gweithwyr meddygol proffesiynol, efallai fydd gwasanaethau cymdeithasol, arbenigwyr meddygol, ymarferwyr cymorth cynnar neu asiantaeth allanol arall yn gysylltiedig â phlentyn.

Fydd yr ymarferydd proffesiynol yn cefnogi'r plentyn, ond hefyd y gofalwr a'r teulu. Enghraifft adnabyddus o hyn yw Winnicot (1964) yn dweud eich bod methu disgrifio babi, heb sôn am berson ychwanegol. Mae plentyn a'u theulu methu dod ar wahân, mae'r plentyn yn dysgu ac yn adlewyrchi eu credoau a'u barnau yn reddfod. Mae'n bwysig i'r ymarferydd proffesiynol fod yn meddwl agored i greu cysylltiadau cryf i'r cartref ac i'r gymuned.

Yn ôl Bronfenbrenner (1979) fydd pawb sydd yn gysylltiedig gyda phlentyn yn cael effaith a dylanwad arnynt gan gynnwys aelodau o'u gymuned a'u chymdogion.

Mae'n bwysig felly fod gan bawb sydd yn dod mewn cysylltiad â phlentyn agwedd da a rhagolwg cadarnhaol ond hefyd dealltwriaeth dda a llawer o wybodaeth. Datganiad Vygotsky (1934) oedd bod plentyn yn dysgu trwy ryngweithio cymdeithasol ag unigolyn sydd yn fwy mentrus neu wybodus.

Esboniodd Bronfenbrenner (1979) bydd gweithio gyda phartneriaeth effeithiol yn bwysig o fewn micro system y plentyn ac yn cael effaith mawr ar y plentyn eu hun.

Mae pawb fydd y plentyn yn cael ei chyflwyno i yn dod a gwybodaeth newydd, credoau a phersonoliaeth wahanol atynt. Esboniodd Bowlby (1969) fod atodiad diogel yn sicrhau fod cwrdd â phobl newydd yn bositif i blentyn.

“It takes a village to raise a child” (Dihareb Affricanaidd, dim dyddiad) mae’r ddihareb yn esbonio faint o bobl sydd yn gallu dylanwadu ar un unigolyn. Wrth ddarparu amgylchedd diogel ac iach i blentyn arbrofi, archwilio, arsylwi a phrofi canlyniadau eu hamgylchedd a’u gweithredoedd (Straussner, 2022).

Dwedodd Lywodraeth Cymru (2022) fod pob plentyn yn wahanol, dylai ymarferwyr gweithio mewn partneriaeth i adeiladu perthnasoedd ymddiriedus gyda rhieni a gofalwyr i ddeall anghenion pob unigolyn. Gall hyn annog plentyn i ddysgu ac i ddatblygu, gofalu am eu lles ac yn rhoi ymdeimlad o berthyn, cynefin.



Heriau

Gall llawer o ffactorau herio gofal o ansawdd uchel. Gan gynnwys cyllid, dod o hyd i ofalwyr sydd yn deall camau datblygu plant ac hefyd mannau ddefnyddiol. Gall anghenion ychwanegol plentyn hefyd fod yn her, ond her gall gofalwr goresgyn wrth ddod i adnabod y plentyn a deall yr anghenion unigol.

Credai Goldschmied (2004) fod ddim angen i cyllid herio addysg plant, wrth creu Fased Trysor ar gyfer profiad synhwyraidd. Gan ddefnyddio gwrthrychau pob dydd mewn fased isel, gall plentyn archwilio a gwneud dewisiadau wrth pori trwy a ddefnyddio dychymyg i ddysgu am y peth yr ydyn yn gweld, teimlo a ddefnyddio.

Dangosodd Montessori (1909) hefyd fod ddim angen gwrthrychau arbennig ar plentyn, credai hi fod un rhywbeth mae plentyn yn eu ddefnyddio yn gorfod cael defnydd cywir, er enghraifft, os fydd plentyn yn torri brechdan dylen nhw ddefnyddio cyllell arferol yn lle un plastig “plentyn”.

Awgrymodd hefyd fod pop peth gyda lle a ddylid ei ddychwelyd nôl ar ôl defnyddio. Fydd hyn o ddefnydd gyda her o mannau fach neu sydd angen rhannu.



Gweithgareddau

O dan cwricwlwm newydd Llywodraeth Cymru (2022), anogir plant i ddysgu wrth chwarae. Dilynwn ei hesiampl a'u diddordebau i gynllunio gweithgareddau addas i anog sgiliau modur manwl a sgiliau modur bras yn ogystal â sgiliau cyfathrebu a chymdeithasol.

Helpodd damcaniaethau Montessori (1909), Pikler (1940) a dull Regio Emilia siapiaio'r cwricwlwm presennol.

Mae Llywodraeth Cymru (2022) hefyd wedi addasu a ddefnyddio syniadau o ar draws y byd, fel yr Eidal a gwledydd Nordig. Mae'r syniad addysgeg dysgu yn yr awyr agored yn dod o gwledydd Nordig.

Yn Denmarc mae rhan fwyaf o'u addysgeg yn digwydd yn yr awyr agored. Chwilia'r plant am chwilod, dysgu am tymhorau cyfnewidol, reidio beic a hyd yn oed pysgota. Mae'r plant yn dysgu sut i cymdeithasu mewn ffyrdd gwahanol, mae'r plant yn hapus ac yn chwilfrydig. Mae addysgeg yma yn anog y plant i fod yn fwy anturus ac i archwilio'r amgylchoedd heb disgwyliadau neu pwysau Olsen (2023).

Yn ôl dull Reggio Emilia y plant sydd yn rheoli'r addysgeg. Gan ddefnyddio diddordebau y plant fydd yr ymarferydd proffesiynol yn paratoi gweithgareddau i danio eu cariad at ddysgu.

Bydd Basgedi Trysor Goldschmied (2004) yn rhoi profiad synhwyrdd. Gan ddefnyddio gwrthrychau pob dydd, gall plentyn ddefnyddio dychymyg i ddysgu am y peth yr ydyn yn gweld, teimlo a ddefnyddio. Yn anog plant i ofyn cwestiynnau am y gwrthrychau, neu i'r plant dyfalu am beth gall y gwrthrych cael eu ddefnyddio, neu neilltio pwrpas ac ystyr eu hunan arnynt.

Mae Pikler (1940) yn awgrymu fod gan plant digon o ryddid i symud yn annibynnol mewn amgylchedd diogel, bod ganddynt yr holl amser sydd angen arnynt i ddysgu ar eu cyflymder eu hun a digon o phrofiadau y gallynt dysgu ohonynt.

Trwy ddefnyddio syniadau Reggio Emilia, Montessori (1909) a Pikler (1940) mae dull chwilfrydedd yn anog y plant i eisiau archwilio'r byd o'u gwmpas, yn lle oedolyn yn dweud wrth plentyn i gwneud rhywbeth. I creu unigolion sydd yn meddylwyr a gwneuthurwyr. Yn rhoi cyfrifoldeb i'r plentyn a rhyddid i reoli eu taith dysgu eu hunain.

Wrth gweld y gwahanol dulliau mae'n bwysig i gofio fod plant yn gorfod dysgu cywir ac anghywir, esboniodd Olsen (2023) yn eu erthygl hefyd fod dim pwyslais a nid oes cymaint o ganllawiau caeth ar

ymddygiad da pan yn dysgu mewn natur. Er nad oes unrhyw sôn am ymddygiad yn y dulliau eraill, mae angen rhai canllawiau ymddygiad y dylai'r plant cydymffurio â nhw.

Dewiswyd Llywodraeth Cymru (2022) rhannau o llawer o ddulliau a rhai o damcaniaethwyr gwahanol, wrth nodi'r pethau cadarnhaol a negyddol ohonynt i gyd. Wedi rhoi at ei gilydd i rhoi cymorth i gosodiadau ledled Cymru ac i gynghori ymarferwyr a chynorthwyo i fodeli dull llawen ac ymgysylltiol o ddysgu.



Cyfeiriadau

Bowlby, J. (1969) *Attachment and Loss: Volume 1. Attachment*, New York, Basic Books.

Bronfenbrenner, U. (1977). Toward an experimental ecology of human development. *American Psychologist*. 0(0), pp.513-522. [Online]. Available at: <https://scottbarrykaufman.com/wp-content/uploads/2019/07/a4f4a4545519d84c5c57095b4bcc685d7dd9.pdf> [Accessed 1 December 2023].

Knickmeyer *et al* (2008) *A structural MRI study of human brain development from birth to 2 years*. Available at: <https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/19020011/> (Accessed:20/01/24)

Maslow, A H. (1943). A Theory of Human Motivation. *Psychological Review*. 50(4), pp.370-396. [Online]. Available at: <https://psychclassics.yorku.ca/Maslow/motivation.htm> [Accessed 1 December 2023].

Montessori, M. (1909) *The Montessori Method : the Origins of an Educational Innovation : Including an Abridged and Annotated Edition of Maria Montessori's The Montessori Method*. Lanham, MD :Rowman & Littlefield Publishers, 2004.

Olsen, M. (2023) *Learning Amongst the trees Denmark*. UNESCO courier. Available at: <https://courier.unesco.org/en/articles/learning-among-trees-denmark#:~:text=Improved%20self%20Desteem%2C%20curiosity%20and,are%20booming%20in%20>

[Nordic%20countries.&text=The%20practice%20of%20mindfulness%20combined,a%20calming%20effect%20on%20children.](#) (Accessed: 20/01/24)

Pikler, E. (1940) *Mit Tud Már a Baba?* Academic Publishers

Stiles, J. and Jernigan, T.L., (2010) *The basics of brain development*. Available at: <https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/21042938/> (Accessed: 20/01/24)

Straussner, S L. (2022). *It Takes a Village to Raise a Child: Understanding and Expanding the Concept of the "Village"*. [Online]. Ncbi.nlm.nih.gov. Last Updated: March 11. Available at: <https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC8964422/#:~:text=The%20phrase%20%E2%80%9Cit%20takes%20a> [Accessed 1 December 2023].

Thousand days. (no date) Building Health. Available at: <https://thousanddays.org/why-1000-days/building-health/#1640053143777-46761c72-cb18cb07-6958>. (Accessed: 1st August 2023).

Unicef india (dim dyddiad). *Why are the First 1,000 Days of Your Baby's Life Very Important?* Available at: <https://youtu.be/yjgn2ZAepEo?feature=shared>

(Accessed: 20/01/24)

Vygotsky, L.S. (1934) (1978). *Mind in society: The development of higher psychological processes*. Cambridge, MA: Harvard University Press.

Welsh Government. (2022) Curriculum for funded non-maintained nursery settings. Available at: <https://hwb.gov.wales/api/storage/b1801d78-38c3-4320-9818-d9996c21aef8/220914-a-curriculum-for-funded-non-maintained-nursery-settings.pdf> (Accessed: 20/01/24)

Winnicott, D.W. (1971). *Playing and Reality*. London and New York: Routledge.